



## **ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION**

### **POLISI GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Cwyd gwrthdaro buddiannau pan fo buddiannau ymddiriedolwr unigol yn, neu'n gallu bod yn, wahanol i fuddiannau'r elusen ei hun. Gall hyn fod yn rhywbeth sy'n effeithio ar yr ymddiriedolwr yn uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol, trwy aelod o'r teulu, neu gyfaill neu bartner busnes.

Bydd holl Ymddiriedolwyr Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn ymdrechu i osgoi gwrthdaro buddiannau rhwng buddiannau'r Gymdeithas ar un llaw a buddiannau personol, proffesiynol a busnes ar y llaw arall. Mae hyn yn cynnwys osgoi gwrthdaro buddiannau go iawn yn ogystal â chanfyddiad gwrthdaro buddiannau.

Mae Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn ymrwymedig i sicrhau bod, ac yr ymddengys bod, y penderfyniadau a'r gweithdrefnau gwneud penderfyniadau yn rhydd o duedd personol, heb ffafrio unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â'r elusen yn annheg. Diben y polisi hwn yw diogelu gonestrwydd proses gwneud penderfyniadau y Gymdeithas, er mwyn sicrhau bod gan ei rhanddalwyr hyder yn ei gonestrwydd ac i ddiogelu gonestrwydd ac enw da'r Ymddiriedolwyr ac Aelodau'r Pwyllgorau.

Mae esiamplau o wrthdaro buddiannau yn cynnwys:

1. Ymddiriedolwr sy'n danysgrifiwr yn gorfod penderfynu a ddylid cynyddu ffioedd tanysgrifiad.
2. Ymddiriedolwr sydd hefyd ar bwylgor sefydliad arall sy'n cystadlu am yr un cyllid.
3. Ymddiriedolwyr sydd â chyfrannau neu fudd mewn busnes a fydd efallai'n ennill cytundeb i wneud gwaith neu i ddarparu gwasanaethau i'r Gymdeithas.

Ni chaiff unrhyw Ymddiriedolwr dderbyn gan y Gymdeithas, p'un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy briod, bartner, aelod o'r teulu, partner busnes neu ffrind, unrhyw elw (arian, neu eiddo arall, nwyddau neu wasanaethau sydd â gwerth arian, ac eithrio ad-daliad am dreuliau dilys) ond bod awdurdod cyfreithiol digonol wedi ei gael o flaen llaw.

Yn dilyn ei (h)apwyntiad bydd pob Ymddiriedolwr yn cynhyrchu datgeliad llawn, ysgrifenedig o fuddiannau, megis perthnasau, a swyddi a wnaed, a allai o bosib olygu gwrthdaro buddiannau. Cedwir y datgeliad hwn ar ffeil ar ffurf Cofrestr Buddiannau a'i ddiweddarau'n flynyddol.

Mae gan Ymddiriedolwyr ac Aelodau Pwyllgorau gyfrifoldeb personol i ddatgan gwrthdaro buddiannau os ydynt yn mynd i gyflawni eu dyletswydd cyfreithiol i weithredu ond er lles gorau'r elusen. Felly, yn ystod cyfarfodydd neu drafodaethau bydd Ymddiriedolwr yn datgelu unrhyw fuddiannau mewn gweithrediad neu benderfyniad ble gall gwrthdaro buddiannau rhwng buddiannau'r Gymdeithas a'u buddiannau eu hunain fodoli, neu wrthdaro rhwng buddiannau'r Gymdeithas a buddiannau sefydliad arall mae'r Ymddiriedolwr yn ymwneud ag ef. Os yw'r Ymddiriedolwr yn ansicr beth y dylai ddatgelu dylai sicrhau na wna gamgymeriad a cheisio canllaw gan Gadeirydd y Cyngor neu'r Ysgrifennydd Mygedol.

Yn dilyn y datgeliad, ni all yr Ymddiriedolwr gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor na Phwyllgorau nag mewn gwneud penderfyniadau ar y mater a nis cyfrifir ef/hi yn y cworwm ar wneud penderfyniadau sy'n berthynol i'r mater. Er mwyn cael trafodaeth onest ac agored, bydd Ymddiriedolwr a effeithir arno /arni gan wrthdaro buddiannau yn gadael yr ystafell tra bo penderfyniad / gwneud penderfyniad perthynol yn cymryd lle, ac eithrio bod rheswm da drosto ef/drosto hi i aros.

Nodir unrhyw ddatgeliad a'r gweithrediadau dilynol yn y cofnodion.

Mae'r polisi hwn ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Gymdeithas. Erys cyfrifoldeb i orfodi'r polisi gyda Chadeirydd y Cyngor a'r Ysgrifennydd Mygedol.

### **Adolygu**

Adolygir y polisi hwn yn rheolaidd a'i ddiweddarau yn ôl y gofyn.

Mabwysiadwyd gyntaf ar           24 Chwefror 2016

Adolygwyd ddiwethaf ar        24 Chwefror 2016

I'w adolygu nesaf yn            Chwefror 2019